

LinkedIn – Datblygu eich Proffil Proffesiynol



Pam LinkedIn?

- Mynediad at filiynau o weithwyr proffesiynol yn fyd-eang
- Cyfle i ddatblygu eich proffil proffesiynol ar-lein
- Canfod cyfleoedd gwaith - mae dros 87% o recriwtwyr yn defnyddio LinkedIn i ddod o hyd i dalent ac ymgeiswyr ymchwil
- Meithrin eich ymwybyddiaeth fasnachol

Sut i lunio proffil effeithiol

- Ychwanegwch lun proffil proffesiynol – bydd eich proffil 14 gwaith yn fwy tebygol o gael ei weld.
- Targedwch eich pennawd – pwy ydych chi, beth rydych yn ei wneud/astudio, eich cymwysterau, eich profiad a'ch sgiliau allweddol.

Myfyriwr BA Addysg | Sgiliau ym maes datblygiad plant | Profiad o ddysgu mewn ysgol Gynradd | Chwilio am gyfleoedd ym meysydd polisi addysgol a datblygu'r cwricwlwm

- Addaswch eich URL – bydd hyn yn gwneud eich proffil yn haws i'w ffeindio, e.e. [linkedin.com/in/joe-bloggs/](https://www.linkedin.com/in/joe-bloggs/) yn hytrach na [linkedin.com/in/HRbt3817zugubn245](https://www.linkedin.com/in/HRbt3817zugubn245)

Crynodeb

- Dyma'ch cyfle i hyrwyddo eich hun i gysylltiadau a darpar gyflogwyr. Dylech nodi eich holl sgiliau mwyaf perthnasol, eich profiadau, a'ch prif gyflawniadau. Gallwch deilwra'ch proffil i'r math o swyddi a'r sector sydd o ddiddordeb i chi.
- Rhowch ddolenni i gyfryngau coeth – portffolios, gwefannau, blogiau, fideos a phrosiectau y gallwch eu harddangos.

Addysg

- Dylech gynnwys eich gradd, ac unrhyw fodiwlau, prosiectau, traethodau hir, sgiliau a gwybodaeth berthnasol.
- Cofiwch gynnwys unrhyw hyfforddiant ychwanegol, cyrsiau, gwobrau, cyhoeddiadau ac ati.
- Dylech gynnwys gweithgareddau allgyrsiol a safleoedd o gyfrifoldeb o dan yr adran Gweithgareddau a Chymdeithasau. Ychwanegwch unrhyw ddolenni perthnasol i wefannau a fideos i arddangos eich sgiliau.

Profiad

- Dylech gynnwys unrhyw brofiad gwaith, interniaethau neu swyddi rhan-amser rydych wedi'u gwneud, gan hyrwyddo eich sgiliau a'ch profiadau.

- Rhowch amlinelliad o'r swyddi, gan ddefnyddio pwyntiau bwled i esbonio'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau a'r sgiliau perthnasol.
- Defnyddiwch ferfau gweithredol i ddangos eich medrau, e.e. *Cyfrifol am ddatblygu strategaeth farchnata newydd*

Sgiliau, Cymeradwyaeth a Geirdaon

- Sgiliau – Ychwanegwch eich sgiliau. Canolbwyntiwch ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl/sector swyddi sydd o ddiddordeb i chi, ac yna ychwanegwch sgiliau pellach.
- Cymeradwyaeth – Profwch eich sgiliau drwy ofyn i gysylltiadau gymeradwyo'ch gwaith a'r sgiliau y maent wedi'u gweld.
- Geirdaon – Gofynnwch i gysylltiadau sydd wedi rhoi adborth da i chi e.e. rheolwr llinell, ysgrifennu geirda y gallwch ei ychwanegu at eich proffil.

Profiad o Wirfoddoli

- Amlygwch unrhyw brofiad sydd gennych o wneud gwaith gwirfoddol.

Ehangu eich rhwydwaith

- Dilynwch bobl – cyflogwyr, dylanwadwyr, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n gweithio yn y diwydiant sydd o ddiddordeb i chi er mwyn dod hyd i gyfleoedd gwaith ac i ddysgu mwy am y diwydiant.
- Cysylltu â phobl – cysylltwch â gweithwyr proffesiynol, cydweithwyr, academyddion a chyn-fyfyrwyr ac ymunwch â grwpiau. Cymerwch ran mewn grwpiau trafod, bydd eich proffil yn fwy tebygol o gael ei weld. Cofiwch anfon neges bersonol wrth wneud cais i gysylltu ag eraill yn hytrach na'r neges sy'n cael ei chreu yn awtomatig.
- Cymerwch ran yn eich rhwydwaith – ysgrifennwch erthyglau i ennyn cyswllt â'ch rhwydwaith ac i ddechrau trafodaethau. Hoffwch/gwnewch sylwadau am bostiadau, yn enwedig postiadau gan gyflogwyr, a rhannwch adnoddau defnyddiol gyda'ch rhwydwaith.

Cysylltu â recriwtwyr

- Nodwch eich dewisiadau swyddi i ddangos i recriwtwyr pa rolau sydd o ddiddordeb i chi.
- Chwiliwch am swyddi; gallwch ddewis cael negeseuon i'ch hysbysu am swyddi perthnasol.

Rhagor o gymorth

- Edrychwch ar yr awgrymiadau a'r adnoddau defnyddiol ar [LinkedIn for Students](#).
- Gallwch gael adborth am eich proffil LinkedIn mewn sesiwn galw heibio yn y Swyddfa Gyrfaoedd, Undeb y Myfyrwyr.
- Cymerwch ran yn ein gweithdy canolog ar LinkedIn; i gael rhagor o fanylion am y gweithdy, gweler [gyrfoeddABER](#).